



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# Buddsoddi mewn Cymru lachach: blaenorriaethu atal



## Awduron

Rebecca Masters sydd wedi arwain datblygiad yr adroddiad hwn. Mae wedi ei ysgrifennu gan Rebecca Masters, Ann Jones, Anna Stielke, Rajendra Kadel, Leah Jenkins, Aseel Dardur a Jo Davies gyda chymorth Sumina Azam.

Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Dyfyniad

Masters R, Jones A, Davies J, Stielke A, Kadel R, Jenkins L, Dardur A, ac Azam S. Buddsoddi mewn Cymru lachach: blaenoriaethu atal. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Diolchiadau

Diolch yn fawr am ddarparu dystiolaeth a sylwadau ychwanegol i: Kerry Bailey, Huw Brunt, Llion Davies, Mariana Dyakova, Chris Emmerson, Sian Evans, Tracy Evans, Ashley Gould, Liz Green, Rebecca Hill, Joanne Hopkins, Anna Howells, Ciarán Humphreys, Amrita Jesurasa, Ilona Johnson, Anup Karki, Amy McNaughton, Jo Peden, Paul Pilkington, Wendi Shepherd, Emily van de Venter, Zoe Wallace, a Mary Wilson.

ISBN 978-1-83766-557-0

© 2025 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) cyn belled â'i fod yn cael ei wneud mewn modd cywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint yn y drefn deipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Buddsoddi mewn Cymru lachach: blaenoriaethu atal

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol .....	4
Cyflwyniad .....	8
Blynnyddoedd Cynnar a Phlant .....	9
Oedolion lach .....	15
Heneiddio'n lach.....	23
Casgliad.....	28
Cyfeiriadau.....	29
Atodiad 1: Cyflwr iechyd yng Nghymru .....	37
Atodiad 2: Methodoleg .....	39



# Crynodeb Gweithredol

## Mae iechyd da yn hawl ddynol sylfaenol

Mae sicrhau iechyd a llesiant da yn galluogi pobl i fyw bywydau boddhaus, adeiladu perthnasoedd ystyrlon, cyfrannu at eu cymunedau a mwynhau ansawdd bywyd uwch wrth heneiddio. Hebddo, rydym yn cael trafferth i ffynnu, gan arwain at gostau personol a chymdeithasol sylweddol.

Mae iechyd yn cael ei ffurfio gan flociau adeiladu sylfaenol, gan gynnwys cartrefi diogel a chynnes, perthnasoedd sefydlog, mynediad at addysg a gwasanaethau, gweithgarwch pwrpasol, a chyfleoedd ar gyfer ymddygiad iach. Yn anffodus, mae cyflawni a chynnal iechyd da yn dod yn fwyfwy anodd, ac mae gwahaniaethau mewn iechyd rhwng cymunedau (anghydraddoldebau iechyd) yn cynyddu.




### Mae buddsoddi mewn iechyd a llesiant yn hanfodol

Er gwaethaf bregusrwydd cyllid y sector cyhoeddus, nawr yw'r amser i flaenorriaethu buddsoddiad yn iechyd a llesiant pobl. Gall buddsoddiad wrthdroi'r dirywiad yn iechyd y genedl, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldebau iechyd a galluogi pobl Cymru i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach. Gall ymrwymiad parhaus cryf i atal leihau baich a chostau afiechyd i'r system iechyd a gofal, gydag ymyriadau iechyd y cyhoedd yn cynnig elw o £14 am bob £1 a fuddsoddir<sup>(1)</sup>. Mae angen inni fuddsoddi mewn atal, nid dim ond er gwaethaf sefyllfa ariannol heriol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond o'i herwydd.



## Map llwybr ar gyfer newid effeithiol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut mae buddsoddi mewn atal yn gosod y sylfaen ar gyfer iechyd da trwy gydol bywydau pobl, gan arddangos meysydd a allai gael yr effaith fwyaf. Mae'n canolbwytio ar raglenni hirdymor ac ymyriadau wedi'u targedu sy'n anelu at wella canlyniadau iechyd, lleihau anghydraddoldebau a lleihau effaith ariannol iechyd gwael ar y GIG a'r gymdeithas ehangach yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn mabwysiadu dull cwrs bywyd, gan bwysleisio ymyriadau sy'n lleihau effaith gronol risgau iechyd gydol oes ac ar draws cenedlaethau.



# Ein canfyddiadau

Rydym wedi crynhoi'r dystiolaeth ddiweddaraf ar ble y gall buddsoddi mewn atal gael yr effaith fwyaf yn y blynnyddoedd cynnar a phlant, ar gyfer oedolion iach ac ar gyfer heneiddio'n iach.



## Blynnyddoedd Cynnar a Phlant

Mae cyfradd marwolaethau plant Cymru 70% yn uwch ar gyfer plant sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig o gymharu â'u cymdogion mwyaf cefnog<sup>(2)</sup>

Mae rhagleni i gefnogi rhieni a'r blynnyddoedd cynnar yn effeithiol ac yn gosod y sylfaen ar gyfer iechyd a llesiant da yn y tymor hwy, gan ddod ag elw sylweddol ar fuddsoddiad. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i wneud y gorau o'u galluoedd a chyflawni eu potensial hyd at fod yn oedolion iach.

Mae enghreifftiau o dystiolaeth a nodwyd ag effaith gadarnhaol ac elw cadarnhaol ar fuddsoddiad yn cynnwys:

Gwasanaethau integredig ar gyfer iechyd meddwl mamau a rhieni



Rhagleni addysg blynnyddoedd cynnar yn arbennig ar gyfer teuluoedd incwm isel



Rhagleni sy'n cefnogi menywod i roi'r gorau i ysmgyu yn ystod beichiogrwydd



## Oedolion Iach

Mae gan bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig siawns llawer uwch o farwolaeth o achosion y gellir eu hosgoi (3.7 gwaith i ddynion a 3.8 gwaith i fenywod)<sup>(3)</sup>

Mae'r canfyddiadau'n pwysleisio'r angen i gefnogi ymddygiadau iach, llesiant meddwl a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd. Mae'r rhagleni'n adlewyrchu dull traws-sector sy'n darparu gwasanaethau effeithiol ac amgylcheddau cefnogol a galluogol.

Mae enghreifftiau o dystiolaeth a nodwyd ag effaith gadarnhaol ac elw cadarnhaol ar fuddsoddiad yn cynnwys:

Dulliau aml-gydrannol o leihau hunan-niweidio a hunanladdiad



Rhagleni gweithgarwch corfforol i liniaru gordewdra a chlefydau cysylltiedig fel diabetes.



Rhannu data rhwng sefydliadau gan leihau'r costau sy'n gysylltiedig â thrais





## Heneiddio'n iach

Mae bwlc o 17 mlynedd mewn disgwyliad oes iach i fenywod sy'n byw yn ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru. Mae'r bwlc hwn yn 13 mlynedd i ddynion<sup>(4)</sup>

Mae angen dull cyfannol i sicrhau heneiddio'n iach gyda chydnabyddiaeth o werth pobl hŷn a'u cyfraniad i gymdeithas. Mae elw cymdeithasol ar fuddsoddiad yn darparu dystiolaeth o werth cymdeithasol ehangach heneiddio'n iach.

Mae enghreifftiau o dystiolaeth a nodwyd ag effaith gadarnhaol ac elw cadarnhaol ar fuddsoddiad yn cynnwys:

Rhagleni ac ymyriadau i hyrwyddo byw'n annibynnol i bobl hŷn



Rhagleni i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd



Rhagleni rheoli cyn-diabetes



Ni ellir buddsoddi mewn atal ar ei ben ei hun; mae angen iddo fod yn rhan o ymgyrch ehangach i leihau anghydraddoldebau iechyd drwy strategaethau a pholisïau sy'n canolbwytio ar y blynnyddoedd cynnar a lleihau tlodi. Mae'n hanfodol bod gwariant cyhoeddus o fudd i gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, gyda ffocws ar ymyriadau effaith uchel gyda photensial sylwedol, graddadwy. Mae angen i fuddsoddiad fod yn rhan o ymrwymiad hirdymor sydd nid yn unig yn arwain at ganlyniadau cyflym ond hefyd yn caniatáu amser i'r effaith lawn gael ei gwreddu (dros 5 mlynedd)<sup>(1)</sup>.

Mae maint yr her sy'n ein hwynebu yn golygu bod angen blaenoriaethu atal, gweithio ar draws sectorau a ffiniau, cynnwys ein poblogaeth ac atebion integredig i broblemau cymhleth, gan sicrhau bod ein gweithredoedd yn ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)<sup>(5)</sup> i gyflawni newid cynaliadwy a system iechyd a gofal gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.



# Cyflwyniad

## Diben yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi arweiniad i'r rhai sy'n llunio polisiau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar draws pob sector yng Nghymru ar ble i fuddsoddi mewn atal er mwyn gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau. Mae'n eiriol dros gyflawni newid cynaliadwy ac ennill y buddion economaidd mwyaf i'r system iechyd a gofal a'r gymdeithas ehangach.

Gan fabwysiadu dull cwrs bywyd, mae'r adroddiad yn pwysleisio atal sy'n lleihau effaith gronol risgau iechyd gydol oes ac ar draws cenedlaethau, gan ganolbwytio ar raglenni hirdymor ac ymyriadau wedi'u targedu.

## Cyd-destun

Yn 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru strategaeth "Cymru Iachach"<sup>(6)</sup> gyda'r nod o wella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Roedd y cynllun yn canolbwytio ar fynd i'r afael ag amrywiaeth o heriau megis poblogaeth sy'n heneiddio, ymddygiad nad yw'n iach a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd. Fodd bynnag, ers lansio'r strategaeth, mae cymdeithas wedi mynd trwy newidiadau digynsail oherwydd y pandemig COVID-19, yr argywng costau byw a thensiynau cymdeithasol cenedlaethol a rhyngwladol cynyddol. Yn fyr, mae'r sefyllfa wedi gwaethyg, mae iechyd yn dirywio, ac mae cyllid cyhoeddus dan straen cynyddol. Mae'n bwysig yn awr yn fwy nag erioed i sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn helpu pobl yng Nghymru i sicrhau iechyd

a llesiant da er mwyn gallu byw bywydau boddhaus, cyfrannu at eu cymunedau a mwynhau ansawdd bywyd uwch wrth heneiddio. Gellir cyflawni hyn trwy gael y blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer iechyd yn eu lle, gan gynnwys cartrefi diogel a chynnes, perthnasoedd sefydlog, mynediad at addysg a gwasanaethau, gweithgarwch pwrpasol, a chyfleoedd ar gyfer ymddygiad iach.

Gall buddsoddiad o'r fath wrthdroi'r dirywiad yn iechyd y genedl, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldebau iechyd a galluogi pobl Cymru i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach. Gall ymrwymiad parhaus cryf i atal leihau baich a chostau afiechyd i'r system iechyd a gofal, ac mae'n cynnig elw o £14 am bob £1 a fuddsoddir<sup>(1)</sup>. Mae angen inni fuddsoddi mewn atal, nid yn unig er gwaethaf sefyllfa ariannol heriol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond o'i herwydd.

## Dulliau

Fe wnaethom gynnal adolygiad cwmpasu systematig cyflym i ddiweddarau'r dystiolaeth a gasglwyd yn flaenorol gan iechyd Cyhoeddus Cymru<sup>(7)</sup> a Rhwydwaith Tystiolaeth lechyd Sefydliad lechyd y Byd (WHO)<sup>(8)</sup>. Mae'r adroddiad yn integreiddio canfyddiadau blaenorol gyda thystiolaeth o'r chwiliad diweddaraf o 2017 ymlaen. Rydym yn cyflwyno tystiolaeth ymchwil, data a gwybodaeth gyd-destunol gryno dethol oedd ar gael ar adeg datblygu'r adroddiad. Ceir manylion llawn y fethodoleg yn ein hatodiad technegol. Mae'r adroddiad yn cyflwyno data ariannol mewn Punnoedd Sterling a Doleri UD. Oherwydd heterogenedd tystiolaeth sylfaenol, nid oes unrhyw drosi arian cyfred nac addasiadau chwyddiant wedi digwydd.



# Blynnyddoedd Cynnar a Phlant

## Crynodeb o'r dystiolaeth

### Yr hyn a ddywedodd ymchwil blaenorol wrthym

- Y 1000 diwrnod cyntaf (o genhedlu i'r ail ben-blwydd) yw'r blynnyddoedd sy'n dangos y potensial mwyaf ar gyfer gweithredu<sup>(9)</sup>. Mae buddsoddiadau mewn meysydd fel gofal plant cyffredinol ac absenoldeb rhiant â thâl wedi'i dargedu at deuluoedd agored i niwed yn gost-effeithiol.
- Ystyrir bod pob rhaglen frechu yn gost-effeithiol yn y DU gan ei bod yn ofynnol iddynt gyrraedd trothwyon er mwyn cael eu cymeradwyo i'w defnyddio<sup>(10)</sup>.
- Mae'n bwysig sicrhau bod rhaglenni'r Blynnyddoedd Cynnar yn cael eu darparu'n gynhwysfawr ac yn gyson fel Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer pob teulu yng Nghymru<sup>(11)</sup>.
- Mae gan blant sy'n byw drwy Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), megis trais, esgeulustod neu fyw gydag unigolion â phroblemau cam-drin sylweddau, risgiau uwch o salwch<sup>(12)</sup>.
- Mae pob £1 a fuddsoddir mewn rhaglenni rhianta i atal anhwylder ymddygiad yn arbed £8 i'r GIG yn Lloegr dros 6 blynnydd mewn costau gofal iechyd, addysg a chyflawnder troseddol<sup>(13)</sup>.

### Canfyddiadau ymchwil wedi'u diweddaru - yr hyn y mae'r adroddiad hwn yn ei ychwanegu

- Gall rhaglenni rhianta sy'n buddsoddi mewn iechyd meddwl mamau a rhieni ddarparu elw mawr.
- Gall cynyddu'r nifer sy'n bwydo ar y fron fod yn fuddiol i iechyd y fam ac mae'n arbed ar driniaethau ysbyty plant.
- Gall rhaglenni addysg blynnyddoedd cynnar, yn enwedig ar gyfer teuluoedd incwm isel, ddarparu llawer o enillion cadarnhaol.
- Mae rhaglenni ysgol a chymunedol i gefnogi datblygiad plentyndod iach fel gweithgarwch corfforol, maeth, y defnydd o alcohol, iechyd y geg a llesiant meddwl yn arbed costau.
- Gall lleihau amlygiad i hysbysebion bwyd a gwyliau teledu anaddysgol liniaru'r risg o ordewdra dros ddegawd.
- Mae rhaglenni cyfunol yn y gymuned ac yn yr ysgol gyda chyfranogiad rhieni yn dangos addewid o ran atal plant rhag defnyddio alcohol.



## Canfyddiadau ymchwil blaenorol

Mae'r blynnyddoedd cynnar yn hanfodol ar gyfer gosod y sylfaen ar gyfer iechyd da, dysgu gwell a bywyd boddhaus pan yn oedolion. Mae rhaglenni iechyd y cyhoedd sy'n cefnogi rhieni a phlant yn aml yn rhai o'r rhai mwyaf cost effeithiol, gan eu bod yn helpu i nodi materion yn gynnar a darparu cymorth angenrheidiol. Mae strategaeth "Cymru lachach" Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.



## Blynnyddoedd Cynnar

Mae ymchwil a gynhaliwyd yn flaenorol yn awgrymu mai'r 1000 diwrnod cyntaf (o genhedlu i'r ail ben-blwydd) yw'r blynnyddoedd sy'n dangos y potensial mwyaf ar gyfer gweithredu<sup>(7)</sup>. Mae buddsoddiadau mewn meysydd fel gofal plant cyffredinol ac absenoldeb rhiant â thâl wedi'i dargedu at deuluoedd agored i niwed yn gost-effeithiol<sup>(14)</sup>.

Nododd Rhwydwaith Tystiolaeth Iechyd WHO bolisiâu ac ymyriadau iechyd y cyhoedd sy'n cynhyrchu elw ar fuddsoddiad (ROI) neu arbedion cost ac sy'n targedu'r blynnyddoedd cynnar<sup>(8)</sup>. Buddsoddi mewn meysydd fel diogelu cymdeithasol ac iechyd, cymorth i fenywod beichiog, mamau a theuluoedd ifanc; bwydo ar y fron a chymorth maeth; a chynnydd tuag at systemau iechyd, addysg a gofal plant fforddiadwy cyffredinol o safon uchel sy'n dangos y budd mwyaf i'r unigolyn, cymdeithas a'r economi.

## Brechu

Mae rhaglenni brechu ar gyfer plant a menywod beichiog yn elfen allweddol o iechyd y blynnyddoedd cynnar, gan atal clefydau heintus a all achosi anaf sylweddol a marwolaeth i blant. Anelwn at frechu 95% o bobl gymwys er mwyn darparu'r amddiffyniad gorau ac atal lledaeniad clefydau heintus. Mae'r data diweddaraf ar gyfer Cymru yn amlygu mai prin yw'r rhaglenni brechu plant sy'n cyrraedd y targed hwn, gyda dim ond 84.3% o blant 4 oed sydd yn hollol gyfredol â'u brechiadau<sup>(15)</sup>.




dim ond 84.3% o blant 4 oed sydd yn hollol gyfredol â'u brechiadau

Mae anghydraddoldebau yn y nifer sy'n cael brechlynnau ar gynnydd, gydag amddifadedd ac ethnigrwydd yn chwarae rhan. Mae gweithgareddau dal i fyny arferol yn chwarae rhan bwysig o ran cynyddu'r nifer sy'n cael brechiadau a lleihau anghydraddoldebau.

## Tlodi

Mae bron i 29% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol<sup>(16)</sup>. Mae plant o deuluoedd tlotach yn fwy tebygol o gael iechyd gwaeth trwy gydol eu hoes, gan gynnwys pwysau geni isel, iechyd corfforol a meddyliol gwaeth, a siawns uwch o farw yn ystod plentyndod. Mae tlodi hefyd yn effeithio ar ddeilliannau addysgol, sy'n effeithio'n ddiweddarach ar ragolygon swyddi a'r gallu i ffynnu pan fyddant yn oedolion.

Mae perthynas gref rhwng polisi'r llywodraeth a thlodi plant, gan roi cyfle i wneud newid gwirioneddol. Mae modelu senarios diweddar o astudiaeth yn Lloegr yn dangos y gallai gweithredu mesurau megis dileu'r 'terfyn dau blentyn a chap budd-daliadau' arwain at ostyngiad mewn tlodi plant, gwella canlyniadau iechyd plant a lleihau anghydraddoldebau iechyd<sup>(17)</sup>. Byddai hyn yn lleihau'r pwysau ar awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig.



**Mae bron i 29% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol**



## Iechyd corfforol a meddyliol

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023, roedd tua chwarter (24.8%) o blant 4-5 oed yng Nghymru wedi'u dosbarthu yn rhai dros bwysau neu'n ordew<sup>(18)</sup>.



Yn 2022/23 roedd **24.8%** o blant 4-5 oed yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew

Mae plant yn yr ardaloedd mwyaf cyfoethog yn fwy tebygol o gael pwysau iach. Er bod lefelau o fod dros bwysau a gordewdra wedi gostwng ychydig ers y pandemig COVID-19 yng Nghymru, maent yn parhau i fod yn uchel, gyda 11.4% o blant yng Nghymru yn ordew. Mae risgiau o niwed seicolegol oherwydd gordewdra ymhlih plant, gan gynnwys bwlio a gwahaniaethu, hunan-barch isel, gorbryder ac iselder, a all barhau pan fyddant yn oedolion.

**Mae pydredd dannedd yn parhau i fod yn her iechyd y cyhoedd sylweddol yn ystod plentyndod.** Ledled Cymru, mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn profi lefelau uwch o achosion a difrifoldeb pydredd dannedd<sup>(19)</sup>.



**Yn 2021 dywedodd 28% o blant rhwng 11 a 16 oed eu bod yn profi symptomau iselder yng Nghymru,**

gyda'r gyfradd yn fwy

na dwywaith a hanner yn uwch ymyst merched<sup>(20)</sup>. Mae plant sy'n profi plentyndod llawn straen gyda phrofiadau niweidiol lluosog yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael oherwydd hunanddelwedd a hunanwerth gwael. Maent yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiadau sy'n niweidio iechyd yn ystod llencyndod a all arwain at afiechydon fel canser, clefyd y galon a diabetes yn ddiweddarach mewn bywyd<sup>(12)</sup>.



## Canfyddiadau wedi'u diweddaru

Mae buddsoddi mewn rhaglenni i gefnogi iechyd yn y blynnyddoedd cynnar a phlentyndod yn cynnig elw cadarnhaol ar fuddsoddiad. Mae rhaglenni cyffredinol sydd â'r nod o sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, a ddarperir ar raddfa ddigonol, yn cynnig rhai o'r enillion mwyaf i'r GIG a'r gymdeithas ehangach. Yn yr un modd, gall y rhaglenni hynny sy'n targedu ymyrraeth lle y mae eu hangen fwyaf, fod ymhlið y rhai mwyaf buddiol o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd.



Fe wnaethom nodi sawl papur ymchwil a edrychodd ar effaith economaidd rhaglenni'r blynnyddoedd cynnar, gyda phob un ohonynt yn cynnig canlyniadau cadarnhaol naill ai o safbwyt elw ar fuddsoddiad (ROI) neu o ran cyfanswm budd net:

## Blynnyddoedd Cynnar

**Roedd rhaglenni rhianta**  
yn cynnig elw o £15.80 am bob £1 a fuddsoddwyd<sup>(21)</sup>.



**Roedd sgrinio iechyd meddwl gwell gan fydwragedd**  
wedi darparu budd net o £490 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd yn y DU<sup>(22)</sup>.



**Gall rhaglenni sy'n hybu bwydo ar y fron**  
arbed tua £50 miliwn y flwyddyn i'r GIG drwy wella iechyd meddwl a lleihau derbyniadau i'r ysbyty<sup>(23, 24)</sup>.



**Gall addysg blynnyddoedd cynnar cyffredinol,** yn enwedig ar gyfer teuluoedd incwm isel gynhyrchu elw o £1.31 am bob £1 a wariwyd<sup>(25)</sup>.



## Iechyd meddwl

Gall mynd i'r afael â Phrofiau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) helpu i atal trais a lleihau costau gofal iechyd<sup>(34, 35)</sup>.

Mae rhaglenni mewn ysgolion sy'n canolbwyntio ar wella iechyd meddwl, naill ai trwy wrth-fwlio, atal hunanladdiad neu gynyddu ymwneud â rhieni neu'r gymuned yn cynnig elw economaidd cadarnhaol<sup>(13, 21, 36, 37)</sup>.



## Iechyd corfforol

Gall lleihau amlygiad i hysbysebion bwyd a gwyllo teledu anaddysgol leihau'r risg o ordewdra dros amser<sup>(26)</sup>.



Mae rhaglenni yn yr ysgol yn canolbwyntio ar ordewdra, gweithgarwch corfforol a gwell maeth i blant yn gost-effeithiol<sup>(27-29)</sup>.

Gall polisiau cyfathrebu megis labelu bwyd, cyfyngiadau hysbysebu ar gyfer bwydydd nad ydynt yn iach, ac ymgyrchoedd yn y cyfryngau arbed costau mewn darpariaeth gofal iechyd yn y dyfodol. Ledled y byd, mae rhaglenni pwysau iach yn cynnig enillion o hyd at \$4-\$5 am bob \$1 a fuddsoddir.<sup>(30)</sup>



Mae rhaglenni hyrwyddo iechyd y geg yn y gymuned yn gost-effeithiol<sup>(31)</sup>, gan gynnwys brwsio dannedd wedi'i dargedu dan oruchwyliaeth, sydd â ROI o £3.06<sup>(31, 32)</sup>, a thrafodaethau ataliol gyda nyrsys deintyddol<sup>(33)</sup>.

## Crynodeb

Mae tystiolaeth yn dangos bod rhaglenni i gefnogi rhieni a'r blynnyddoedd cynnar yn effeithiol ac yn gosod y sylfaen ar gyfer iechyd a llesiant da yn y tymor hwy, gan ddod â ROI sylweddol. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i wneud y gorau o'u galluoedd a chyflawni eu potensial hyd at fod yn oedolion iach.



## Astudiaeth Achos - Cynllun Gwên

Nod y Rhaglen Cynllun Gwên, a gyflwynwyd yn 2009, yw gwella iechyd y geg plant yng Nghymru. Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i darparu gan Fyrddau Iechyd Lleol, mae'r rhaglen yn darparu rhaglen ataliol i blant o enedigaeth ac yn cynnwys ystod eang o weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi arfer da mewn brwsio dannedd, gan ddarparu brwsys dannedd a phast dannedd, yn ogystal â chyfeirio at ddeintyddiaeth cyn pen-blwydd cyntaf y plentyn. Mae hefyd yn cynnwys cyflwyno rhaglenni brwsio dannedd a farnais fflworld mewn meithrinfeydd ac ysgolion<sup>(38)</sup>.

Yn 2019, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ffigurau yn dangos gostyngiad o 13.4% yng nghyfran y plant â phydredd dannedd, gyda gostyngiad o 15% mewn ardaloedd difreintiedig. Ers lansio'r rhaglen yn 2009, mae pydredd dannedd plant wedi gostwng i draean, sy'n cyfateb i 4,000 yn llai o blant 5 oed yn cael pydredd dannedd. Yn ystod y chwe blynedd diwethaf bu gostyngiad o 35% yn nifer y plant sy'n cael triniaethau deintyddol o dan anesthesia cyffredinol, gan olygu bod 3,200 yn llai o blant y flwyddyn yn gorfol cael triniaeth am bydredd dannedd<sup>(39)</sup>.



Yn y flwyddyn academaidd 2023/24<sup>(40)</sup>, cynigiwyd brwsio dannedd dan oruchwyliaeth bob dydd i bron i 60,000 o blant mewn ysgolion a meithrinfeydd yng Nghymru yn, gyda bron i 41,000 yn cael eu darparu â farnais fflworld. Dosbarthwyd dros 167,000 o frwsys dannedd cartref, a derbyniodd dros 1,400 o weithwyr proffesiynol hyfforddiant iechyd y geg gan dimau Cynllun Gwên.



# Oedolion lach

## Crynodeb o'r dystiolaeth

### Yr hyn a ddywedodd ymchwil blaenorol wrthym

- Mae atal yn costio llai na thriniaeth, gydag iechyd y cyhoedd yn gyffredinol yn cynnig elw o £14 am bob £1 a fuddsoddir<sup>(1)</sup>.
- Mae rhagleni a ddarperir ar raddfa fawr yn cynnig mwy o elw ariannol o gymharu â phrosiectau llai a mwy lleol<sup>(1)</sup>.
- Mae amrywiaeth eang o ragleni sydd wedi'u hanelu at wella iechyd meddwl yn gost-effeithiol gan gynnwys cefnogi dysgu gydol oes, rhagleni seiliedig ar waith a mentrau cymunedol i ddod â phobl ynghyd<sup>(21)</sup>.
- Mae rhagleni cost-effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad iach sy'n adlewyrchu dull aml-asiantaeth yn cynnwys ymgyrchoedd yn y cyfryngau torfol, hyrwyddo trafnidiaeth llesol, integreiddio gweithgarwch corfforol i leoliadau amrywiol a mynediad i fannau gwyrdd<sup>(41)</sup>.
- Amcangyfrifir mai'r gost gyfartalog i liniaru peryglon mewn cartrefi yw £2,455 fesul cartref, sef cyfanswm o £584 miliwn ar gyfer y stoc dai gyfan yng Nghymru<sup>(42)</sup>.
- Gall atal ACEs, gwella gwytnwch a ffactorau amddiffynnol i blant yng Nghymru leihau cyflawni trais ac erledigaeth<sup>(8)</sup>.

### Canfyddiadau ymchwil wedi'u diweddaru - yr hyn y mae'r adroddiad hwn yn ei ychwanegu

- Mae rhagleni rhoi'r gorau i ysmygu cleifion mewnol mewn ysbytai i oedolion yn cael eu hystyried yn gost-effeithiol iawn.
- Ystyrir mai cyfweld ysgogol a chymorth hunanreolaeth ymddygiadol yw'r rhaglen fwyaf effeithiol ar gyfer dibyniaeth ar alcohol. Mae triniaethau cyfun ar gyfer dibyniaeth ar alcohol yn gost-effeithiol.
- Mae rhaglen Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT) ar-lein SilverCloud ar gyfer problemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol yn gost-effeithiol.
- Mae rhaglen gofal sylfaenol fel presgripsiynu cymdeithasol, hunan-atgyfeiriadau at gyflyrau cyhyrysgerbydol a chymorth un i un ar gyfer cymorth lles, diabetes a chlefyd coronaidd y galon yn dod ag elw ar fuddsoddiad.
- Mae atal twbercwlosis ymhlið ffoaduriaid ac ymfudwyr yn gost-effeithiol.
- Mae ymgymryd â gwaith adfer ymlaen llaw i liniaru peryglon Tai Categori 1 yn dod ag elw ar fuddsoddiad a buddion cymdeithasol ychwanegol.
- Mae gwell gofal ysbyty i bobl ddigartref, sy'n cynnwys mewnbwn gan Dîm Gofal Digartrefedd, yn gwella ansawdd bywyd ac yn lleihau digartrefedd ar y stryd o'i gymharu â thîm clinigol safonol mewn ysbytai.
- Mae rhannu data a gwybodaeth rhwng sefydliadau fel Adrannau Achosion Brys a'r Heddlu yn lleihau costau sy'n gysylltiedig â thrais.
- Mae rhagleni cymunedol i leihau trais yn arbed costau.

# Canfyddiadau ymchwil blaenorol

## Llesiant Meddyliol

Gall ffactorau cymdeithasol a strwythurol amddiffyn neu niweidio iechyd meddwl, gyda chyflyrau niweidiol fel tlodi ac anghydraddoldeb yn cynyddu'r risg o iechyd meddwl gwael<sup>(43)</sup>. Mae llesiant meddwl da yn gysylltiedig ag iechyd cyffredinol ac ymgysylltu â gweithgareddau cymunedol ehangach<sup>(44, 45)</sup>. Yng Nghymru, mae gan 32% o oedolion lesiant meddyliol gwael<sup>(4)</sup>, sy'n ffactor risg sylweddol ar gyfer iechyd corfforol gwaeth.



Yng Nghymru,  
mae gan 32% o  
oedolion lesiant  
meddyliol gwael

**Mae materion iechyd meddwl yn un o brif achosion afiechyd ac anweithgarwch economaidd.** Mae data o'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur yn dangos bod dros 2.5 miliwn o bobl yn y DU yn economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor. Mae'r ffigur hwn wedi codi 400,000 rhwng 2019 a 2023. Bu cynydd mewn cyflyrau iechyd meddwl a nodwyd fel y rheswm dros anweithgarwch economaidd. Dywedodd dros 1.35 miliwn o bobl (53%) sy'n economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor fod ganddynt iselder, nerfau drwg neu orbryder<sup>(46)</sup>. Mae'r materion hyn yn costio £4.8 biliwn y flwyddyn i economi Cymru<sup>(21)</sup>.



Dyweddodd 53% o'r bobl sy'n economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor fod ganddynt iselder, nerfau drwg neu orbryder

## Ysmygu

Ysmygu yw un o brif achosion iechyd gwael a marwolaethau cynamserol yng Nghymru, gan ladd dros 5,000 o oedolion bob blwyddyn ac mae'n rym y tu ôl i anghydraddoldebau iechyd parhaus. Mae pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o ysmygu a dioddef ei effeithiau niweidiol o gymharu â'u cymdogion cyfoethocach. Mae tua 13% o oedolion yng Nghymru yn ysmygu cynhyrchion tybaco, gyda 4.2% o oedolion sy'n ysmygu yn ceisio rhoi'r gorau iddi bob blwyddyn drwy wasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu'r GIG<sup>(47)</sup>.

Mae'r achos economaidd dros fuddsoddi mewn rheoli mynediad at gynhyrchion ysmygu a thybaco (rheoli tybaco) a rhagleni stopio ysmygu (rhoi'r gorau i ysmygu) wedi'i hen sefydlu. Gall ffigurau ROI rhagleni o'r fath amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y meini prawf cynhwysiant a ddefnyddiwyd a hyd y dilyniant<sup>(48)</sup>. Er gwaethaf hyn, mae buddsoddi yn y maes hwn o iechyd y cyhoedd yn parhau i fod yn allweddol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Lansiodd Llywodraeth Cymru strategaeth rheoli tybaco newydd yn 2022, sy'n amlinellu sut y bydd Cymru'n ddi-fwg erbyn 2030 (a ddiffinnir fel llai na 5% o'r boblogaeth oedolion yn ysmygu)<sup>(49)</sup>.



Mae  
dros 5000  
o oedolion yn  
cael eu lladd  
gan ysmygu bob  
blwyddyn yng  
Nghymru

Mae 13%  
o oedolion  
yng Nghymru  
yn ysmygu  
cynhyrchion  
tybaco

## Camddefnyddio Alcohol

Mae gan y DU rai o'r lefelau yfed alcohol uchaf y pen yn y byd gydag effeithiau andwyol sylweddol ar iechyd y cyhoedd<sup>(50)</sup>. Yng Nghymru, mae 16% o oedolion yn yfwyr peryglus<sup>(51)</sup>. Mae camddefnyddio alcohol a chyffuriau dosbarth A yn costio cymaint â £2 biliwn y flwyddyn yng Nghymru<sup>(52)</sup>.

Mae mentrau deddfwriaethol ehangach wedi cynnal gostyngiadau yn y defnydd o alcohol dros y degawd diwethaf, ond mae lefelau yfed alcohol ac anhrefn cysylltiedig yn parhau i fod yn uchel. Nododd dadansoddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) fod y rhesymeg dros reoli'r defnydd o alcohol yn gryf, a bod rhaglenni eang eu cwmpas sy'n cysylltu â pholisi llywodraethol ehangach yn fuddiol ar gyfer gwella iechyd a lleihau effeithiau negyddol trosedd ac anhrefn a yrrir gan alcohol<sup>(53)</sup>.



Mae 16% o oedolion yng Nghymru yn yfwyr peryglus

## Pwysau iach a gweithgarwch corfforol

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o'r farn bod gordewdra yn un o'r heriau iechyd y cyhoedd byd-eang mwyaf difrifol i'r 21<sup>ain</sup> ganrif<sup>(54)</sup>.

Mae cyfraddau o fod dros bwysau a gordewdra yn cynyddu ledled Cymru, gyda chyfraddau uwch yn cael eu gweld mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Yng Nghymru, gyda chwech o bob deg oedolyn yn byw gyda dros bwysau a gordewdra (35% dros bwysau, 23% yn ordew, a 3% yn afiachus o dew)<sup>(18)</sup>.



Yng Nghymru mae chwech o bob deg o edolion dros bwysau neu'n ordew

Mae cynnal pwysau iach a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd yn hanfodol ar gyfer llesiant cyffredinol, lleihau'r risg o glefydau cronig a chyflyrau iechyd difrifol, hybu iechyd meddwl, a gwella ansawdd bywyd. Mae bod dros bwysau neu'n ordew yn cynyddu'r risg o nifer o gyflyrau iechyd fel diabetes math 2, clefyd cardiofasgwlaidd gan gynnwys strôc, rhai canserau a chlefyd yr afu<sup>(55)</sup>. - Mae clefyd y galon yn un o brif achosion marwolaeth yng Nghymru, gan achosi dros 10% o farwolaethau'r flwyddyn<sup>(56)</sup>.

Mae ymddygiadau fel ysmyu a defnyddio alcohol a pheidio â chynnal pwysau iach yn effeithio'n sylweddol ar iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae rhaglenni atal sylfaenol sy'n helpu pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw cyn iddynt fynd yn sâl yn gyffredinol yn fwy cost-effeithiol na rhaglenni atal eilaidd sydd â'r nod o atal salwch pellach. Fodd bynnag, mae gan raglenni atal eilaidd rôl bwysig i'w chwarae o ran galluogi pobl i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach<sup>(57)</sup>. Mae rhaglenni o'r fath yn aml yn cael eu darparu mewn lleoliadau gofal sylfaenol fel practisau meddygon teulu, fferyllfeydd a'r gymuned ehangach.



## Canfyddiadau wedi'u diweddaru

Mae canfyddiadau wedi'u diweddaru yn cefnogi'r angen i ganolbwytio ar benderfynyddion ehangach iechyd a dull traws-sector i wneud gwahaniaeth i anghydraddoldebau iechyd a disgwyliad oes iach.



## Llesiant Meddyliol

Gall dulliau aml-gydrannol o leihau hunan-niweidio a hunanladdiad arwain at ROI sylweddol dros orwel amser 10 mlynedd, gyda £39.11 yn cael ei ddychwelyd am bob £1 a fuddsoddwyd<sup>(13)</sup>.



Gall rhagleni yn y gweithle i wella enillion iechyd meddwl rhwng £5-£9 am bob £1 a fuddsoddwyd, gyda rhagleni ataliol yn fwy effeithiol na rhai adweithiol<sup>(21,58)</sup>.



Gall cyngor ar ddyledion ddychwelyd rhwng £2.60 a £4.41 am bob £1 a fuddsoddwyd, gydag enillion uwch ymhlih y rhai â phroblemau iechyd meddwl<sup>(13)</sup>.

Mae rhaglen Therapi Ymddygiad Gwybyddol ar-lein SilverCloud ar gyfer problemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol yn gost-effeithiol<sup>(59)</sup>.

Gall hyfforddiant ffodd o fyw ar gyfer gorbryder neu iselder gynhyrchu SROI o hyd at £7.08 am bob £1 a fuddsoddir<sup>(60)</sup>.


Gall mynediad i fannau gwyrdd a glas gyfrannu at well iechyd meddwl a chynnig SROI o rhwng £0.79 a £28 am bob £1 a fuddsoddir<sup>(61,62)</sup>.



## Ysmygu

Mae strategaethau cyffredinol sy'n anelu at leihau defnydd trwy drethiant a rheoleiddio gwerthiant yn parhau i fod yn rhai o'r rhaglenni mwyaf cost-effeithiol, p'un a ydynt yn canolbwytio ar reoli tybaco neu alcohol<sup>(63)</sup>. Yn yr un modd, mae rhaglenni rhoi'r gorau i ysmygu yn y gymuned ac mewn ysbytai yn gost-effeithiol<sup>(61,64)</sup>.

**Cafwyd bod rhaglenni rhoi'r gorau i ysmygu wedi'u hanelu at gefnogi menywod beichiog i roi'r gorau i ysmygu yn arbed \$29,000 yn ystod oes plentyn<sup>(65)</sup>.**



**Mae 14% o fenywod beichiog yng Nghymru yn ysmygu**



Mae tua 14% o fenywod beichiog yng Nghymru yn ysmygu ac mae ysmygu yn ystod beichiogrwydd yn gysylltiedig ag ystod eang o effeithiau ar iechyd y plentyn megis genedigaeth farw, marwolaeth newyddenedigol a phwysau geni isel. O'r herwydd, mae cefnogi menywod i roi'r gorau i ysmygu yn ystod beichiogrwydd yn flaenoriaeth iechyd y cyhoedd allweddol a fydd yn dod â buddion iechyd lloosog i'r fam a'r plentyn<sup>(47)</sup>.

## Alcohol

Canolbwytiodd y rhan fwyaf o'r astudiaethau ar **sut i gefnogi'r rhai sydd â phroblemau alcohol cydnabyddedig** i geisio cymorth i leihau eu defnydd (atal eilaidd) yn hytrach na chanolbwytio ar atal yfed alcohol yn y lle cyntaf (atal sylfaenol).

Mae defnyddio alcohol yn ffactor risg blaenllaw ar gyfer iechyd gwael ac anabledd, i'r unigolyn a'r gymdeithas ehangach<sup>(36)</sup>.

**Mae rhaglenni fel cyfweld ysgogol a hyfforddiant ymddygiad,** ochr yn ochr â mesurau strwythurol fel deddfau yfed a gyrru, profion anadl ar hap a threthi uwch hefyd yn gost-effeithiol<sup>(66)</sup>.

**Mae rhaglenni dan arweiniad cymheiriad** fel rhaglenni Alcoholics Anonymous (AA) a Twelve-Step Facilitation (TSF) yn effeithiol wrth gynyddu ymatal ac o bosibl arwain at arbedion costau gofal iechyd sylweddol i unigolion ag anhwylder defnyddio alcohol<sup>(67)</sup>.



# Pwysau lach a Gweithgarwch Corfforol

Mae mynediad am ddim i ganolfannau hamdden a chwaraeon cymunedol, yn dangos cost-effeithiolrwydd posibl, fel y dangoswyd ar gyfer oedolion gan raglen Let's Get Active Leeds<sup>(68)</sup>.



**Mae gweithgareddau chwaraeon grŵp wedi'u targedu sy'n anelu at gynyddu gweithgarwch corfforol ar draws gwahanol grwpiau oedran yn dangos elw cadarnhaol gyda chymarebau SROI yn amrywio o £1.91 i £22.37 am bob £1 a fuddsoddwyd<sup>(69,70)</sup>.**



## Cymorth Gofal Sylfaenol

Mae presgripsiynu cymdeithasol yn cefnogi'r rhai sy'n ceisio gwella eu hiechyd a chael mynediad at raglenni anfeddygol<sup>(71)</sup>. Mae corff cryf o dystiolaeth i gefnogi'r defnydd o bresgripsiynu cymdeithasol ar gyfer ystod o anghenion iechyd, o leihau ynysigrwydd (o ymuno â grwpiau cymunedol) i roi'r gorau i ysmigu (mynediad i lyfrgell i lyfrau hunangymorth). Nododd ein dadansoddiad wedi'i ddiweddu fod raglenni presgripsiynu cymdeithasol yn cynhyrchu ROI cadarnhaol, o bosibl yn arbed £4.6m i'r GIG mewn defnydd gofal iechyd dros bum mlynedd<sup>(72)</sup>.



Mae hunan-atgyfeirio i ffisiotherapi ac ioga ar gyfer cyflyrau cyhyrysgerbydol yn arwain at ROI o £7.52 a £6.61 yn y drefn honno<sup>(73)</sup>.



**Mae cyngor gan ffisiotherapyddion mewn gofal sylfaenol ar gyfer cyflyrau cyhyrysgerbydol i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn cynnig ROI o £11.14<sup>(73)</sup>.**

**Gallai rhaglenni llythrennedd iechyd** ar gyfer hybu iechyd cyffredinol, ar lefelau atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, ddychwelyd hyd at £27.40 am bob £1 a fuddsoddir<sup>(74)</sup>.



**Mae gweithwyr cyswllt cymunedol**, ymarferwyr anghlinigol sy'n gweithio un-i-un gydag unigolion a atgyfeiriwyd gan bractis meddyg teulu, yn cynhyrchu SROI o £1.09 - £8.56 am bob £1 a fuddsoddir<sup>(23)</sup>.

**Gall gwell cydgysylltu gofal mewn gofal sylfaenol** ar gyfer y rhai sydd â diabetes neu glefyd coronaidd y galon ddarparu elw o £1.52 am bob £1 a fuddsoddir dros ddwy flynedd<sup>(13)</sup>.

## Tai a Digartrefedd



Mae gan Gymru'r gyfran uchaf o dai gwael ymhliith gwledydd y DU, yn bennaf oherwydd ei stoc tai hŷn. O ganlyniad, mae'n faich mawr ar y GIG o ran trin afiechydon ac anafiaidau damweiniol sy'n gysylltiedig â thai. Nododd ein hadolygiad sawl astudiaeth sy'n ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth sydd wedi'i hen sefydlu bod tai o ansawdd da yn galluogi pobl i fyw'n dda yn eu cymunedau.



Mae gwelliannau sy'n gysylltiedig â chynhesrwydd ac awyru cartrefi i deuluoedd yn gwella symptomau asthma mewn plant ac maent yn gost-effeithiol<sup>(75)</sup>, yn enwedig pan gânt eu targedu at gartrefi mwy agored i niwed.

Mae rhagleni sydd â'r nod o leihau'r risg o ddigartrefedd wedi nodi gwelliannau nodedig yn ansawdd bywyd (cost fesul Blynnyddoedd Bywyd wedi'u Haddasu o Safon (QALYs).)<sup>(76,77)</sup>.

Gall rhagleni atal digartrefedd gynhyrchu arbedion o £9,266 y person o gymharu â chaniatâu i ddigartrefedd barhau am 12 mis<sup>(78)</sup>.



## Trais

Gall rhannu data rhwng adrannau achosion brys a'r heddlu ddarparu elw o £82 am bob £1 a fuddsoddyd a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â thrais yn sylweddol<sup>(35)</sup>.



Argymhellir buddsoddi mwy mewn rhagleni cymunedol sy'n canolbwytio ar ymyrraeth gynnar, fel mynd i'r afael ag ACEs, i atal traís a lleihau ei faich ariannol ar y system gofal iechyd<sup>(34,35)</sup>.

Mae hyfforddi timau practisau meddygon teulu i nodi menywod sy'n profi traís domestig yn arbed arian, gyda £37 o arbedion cost cymdeithasol fesul claf benywaidd bob blwyddyn mewn practisau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS)<sup>(35)</sup>.

## Clefydau trosglwyddadwy

Mae atal twbercwlosis (TB) ymhliith plant a'r glasoed sy'n ffoaduriaid ac yn ymfudwyr (0-18 oed) yn gost-effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchoedd gwybodaeth, hybu iechyd, a heintiau strategaethau rheoli. Dylai opsiynau polisi integreiddio sgrinio TB â gwasanaethau iechyd mudol, gwella cydweithredu trawsffiniol, gwella addysg iechyd, ac alinio polisiau TB â rhagleni cymdeithasol<sup>(79)</sup>.

Canfu adolygiad arall fod sgrinio a thriniaeth ar gyfer TB, HIV, a hepatitis firaol ymhliith ffoaduriaid ac ymfudwyr yn gost-effeithiol yn gyffredinol<sup>(80)</sup>.

## Crynodeb

Mae'r canfyddiadau wedi'u diweddar yn pwysleisio'r angen i gefnogi ymddygiadau iach, llesiant meddwl a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd. Mae'r rhagleni'n adlewyrchu dull traws-sector sy'n darparu gwasanaethau effeithiol ac amgylchedd cefnogol a galluogol.



## Astudiaeth Achos – Silvercloud

### SilverCloud – rhaglen Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT) ar-lein ar gyfer problemau lechyd Meddwl

#### Beth ydyw?

Wedi'i oruchwyliau gan Fwrdd lechyd Addysgu Powys a'i dreialu'n wreiddiol yn ystod y pandemig COVID-19, mae'r rhaglen bellach yn ehangu i Gymru gyfan, gan gynnig therapi digidol ar gyfer plant 11 oed a hŷn, gan gynnwys cymorth amenedigol. Elwodd dros 23,000 o bobl o'r cynllun peilot, gyda 64% yn nodi canlyniadau cadarnhaol. Gyda chefnogaeth seicolegwyr, mae'n cynnig hunangymorth ac arweiniad proffesiynol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £7.7 miliwn ychwanegol mewn cyllid am dros dair blynedd, gan ddechrau o flwyddyn ariannol 2022/23.

Cefnogir y fenter hon gan Strategaeth lechyd a Llesiant Meddwl Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o leihau hunanladdiad a hunan-niwed yn y boblogaeth gyffredinol trwy hyrwyddo, cydgysylltu a chefnogi cynlluniau a rhagleni sy'n atal ymddygiad hunanladdol a hunan-niwed ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

#### Tystiolaeth cost effeithiolrwydd

Canfu adolygiad o raglen CBT SilverCloud ar-lein ar gyfer problemau lechyd meddwl ysgafn i gymedrol ei bod yn gost-effeithiol dros 12 i 24 mis, gyda Chymharebau Cost Effeithiolrwydd Cynyddrannol o £7,718 fesul QALY wedi'u hennill dros 12 mis a £4,151 fesul QALY wedi'i ennill dros 24 mis<sup>(59)</sup>. Mae gan weithredu CBT SilverCloud ar-lein y potensial i lliniaru'r galw am wasanaethau cwnsela un-i-un a CBT y GIG, gan gynnig dewis amgen ymarferol i'r rhai sydd ar restrau aros. Gallai integreiddio atgyfeiriadau CBT SilverCloud ar-lein i lwybrau gofal sylfaenol a phresgripsiynu cymdeithasol wella hygyrchedd a chost-effeithiolrwydd.



# Heneiddio'n lach

## Crynodeb o'r dystiolaeth

### Yr hyn a ddywedodd ymchwil blaenorol wrthym

- Mae rhagleni cost-effeithiol yn cynnwys atal cwympiadau ac anafiadau; gweithgarwch corfforol; atal clefydau trosglwyddadwy a brechu; atal salwch meddwl a chandriniaeth yr henoed; rhagleni tai amlochrog; lleihau tlodi, ynysu cymdeithasol ac allgáu drwy ddarparu cymorth cyhoeddus ar gyfer gofal anffurfiol a gofal cartref<sup>(8)</sup>.



### Canfyddiadau ymchwil wedi'u diweddu - yr hyn y mae'r adroddiad hwn yn ei ychwanegu


- Mae gwella tai trwy uwchraddio gwresogi ac insiwleiddio i rai dros 65 oed yn arbed costau.
- Gall hyrwyddo byw'n annibynnol trwy weithleoedd iach, gwell tai, atal cwympo trwy ragleni ymarfer corff, a mentrau yn y gymuned arwain at arbedion sylweddol o ran costau.
- Mae gohirio mynediad i ofal preswyl am flwyddyn yn unig yn arbed costau.
- Gall rhagleni celf cymunedol a rhagleni ymarfer corff gynhyrchu ROI cadarnhaol a gallant gynhyrchu SROI.
- Mae trafnidiaeth gymunedol yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ac yn darparu ROI cadarnhaol.
- Mae darparu cefnogaeth i ofalwyr hŷn yn darparu llawer o fanteision i'r unigolyn a'r gymdeithas ehangach.

## Canfyddiadau ymchwil blaenorol

**Mae cynnal iechyd da yn ystod henaint o fudd i unigolion a chymdeithas.** Mae gan bobl sy'n cadw'n iach ansawdd bywyd llawer gwell o'i gymharu â'r rhai sy'n datblygu cyflyrâu difrifol lluosog ac sy'n byw gyda nhw am flynyddoedd lawer. Ng Nghymru, mae Y Gymru sy'n Gyfeillgar i Oed: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn cefnogi Strategaeth Cymru lachach drwy sicrhau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, hyrwyddo cydraddoldeb, a chanolbwntio ar atal i helpu pobl hŷn i fyw'n dda<sup>(81)</sup>. Mae Y Gymru sy'n Gyfeillgar i Oed yn ymdrin ag agweddau fel cyflogaeth, hawliau a hawlogaethau, perthnasoedd â theulu, cymunedau, a'r llywodraeth, yn ogystal â chysylltiadau rhwng cenedlaethau. Ei nod yw herio a newid y ffordd yr ydym yn meddwl am heneiddio. Amcangyfrifir mai gwerth economaidd y cyfraniad a wneir gan bobl hŷn yng Nghymru yw £2.19 biliwn y flwyddyn<sup>(82)</sup>.

**Yn gyffredinol, mae gan Gymru boblogaeth hŷn, y disgwylir iddi dyfu yn ogystal â lefelau uwch o amddifadedd economaidd gymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd<sup>(83)</sup>.**

Mae dros un rhan o bump (21%) o bobl Cymru yn 65 oed neu'n hŷn<sup>(84)</sup>, sef y gyfran uchaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac eithrio De-orllewin Lloegr. Mae mwy o bobl yn byw i dros 90 oed, sy'n batrwm a welir ledled y DU.



**Mae dros un rhan o bump o bobl yng Nghymru yn 65 oed neu'n hŷn**

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20<sup>(85)</sup>, o'r bobl 65 oed a hŷn:



**Mae 13% yn adrodd bod eu hiechyd yn wael neu'n wael iawn**



**Mae gan 71% gyflwr iechyd tymor hir**



**Mae gan 31% broblemau gyda'r galon a chylchrediad y gwaed**



**Mae 75% o fenywod a thraean o ddynion dros 65 oed yn byw ar eu pen eu hunain**



**33% o fenywod o ddynion dros 65 yn byw ar eu pen eu hunain**

**Mae mwy na 75% o fenywod a thraean o ddynion dros 65 oed yn byw ar eu pen eu hunain, gyda thua 15% o bobl dros 65 yn dweud eu bod yn teimlo'n unig<sup>(85)</sup>. I gydnabod effaith unigrwydd ar lesiant corfforol a meddyliol pobl hŷn yng Nghymru, lansiwyd Strategaeth 'Cysylltu Cymunedau; Unigrwydd ac Ynysigrwydd'<sup>(86)</sup> ym mis Chwefror 2020.**

**Mae gwelliannau mewn safonau byw, datblygiadau meddygol, a mentrau iechyd cyhoeddus wedi arwain at fywydau hirach i lawer.** Fodd bynnag, nid yw pawb yn mwynhau'r blynnyddoedd maith hyn. Mae anfanteision mewn addysg, cyflogaeth, amodau byw a mynediad anghyfartal at wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn golygu y gall pobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig ddisgwyl byw 17 mlynedd yn llai mewn iechyd da o'i gymharu â'u cymdogion mwy cefnog.<sup>(4)</sup> Yn ogystal, gall llawer ohonom, waeth beth fo'n lleoliad neu incwm, wynebu heriau iechyd meddwl neu gorfforol a chyfyngiadau gweithredol wrth i ni heneiddio, sy'n gofyn am reolaeth effeithiol i gynnal ansawdd bywyd uchel yn y blynnyddoedd hwyrach.



## Canfyddiadau wedi'u diweddaru

Mae'r canfyddiadau wedi'u diweddaru yn cefnogi dull cyfannol o gynnal iechyd da yn ystod henaint sydd o fudd i unigolion a chymdeithas ac sy'n cydnabod y cyfraniad economaidd a wneir gan bobl hŷn yng Nghymru.



## Dull cyfannol at heneiddio'n iach

Mae canfyddiadau o adroddiadau amrywiol yn dadlau o blaid buddsoddi mewn llesiant pobl hŷn â ROIs yn amrywio o £0.17 i £43.99. Mae'r rhagleni'n cynnwys canu cymunedol, cartrefi nyrso sy'n deall dementia, cynlluniau cymorth cartref, cefnogaeth i aros yn y gweithlu, gwelliannau tai, hyrwyddo byw'n annibynnol, annog ymgysylltu â'r gymuned, a chynnal lles meddyliol. Mae'r mentrau hyn yn canolbwytio'n benodol ar fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd cymdeithasol, atal cwympiadau, a chefnogi gofalwyr hŷn.. Er enghraifft, dangoswyd bod cymorth gan gymheiriaid i bobl â dementia a gofalwyr yn rhoi ROI cadarnhaol gyda grwpiau yn creu gwerth cymdeithasol, yn amrywio o £1.17 i £5.18 am bob £1 a fuddsoddir<sup>(82, 87, 88)</sup>. Mae astudiaethau dilynol<sup>(89, 90)</sup> yn cefnogi'r canfyddiadau hyn ymhellach.



## Llesiant Meddyliol

Mae mynd i'r afael ag unigrwydd mewn oedolion hŷn drwy weithgareddau cymunedol a gwasanaethau trafnidiaeth yn arwain at ROIs cadarnhaol<sup>(13)</sup>. Er mwyn mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, mae trafnidiaeth gymunedol yn darparu ROI cadarnhaol, gyda £3 o elw am bob £1 a fuddsoddwyd<sup>(82)</sup>. Mae adolygiad systematig ehangach ar SROI o raglenni iechyd y cyhoedd sy'n mynd i'r afael â materion iechyd meddwl yn dangos cymarebau SROI amrywiol, yn amrywio o £0.79 i £28, gyda rhagleni wedi'u teilwra i'r rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl yn dangos yr elw mwyaf<sup>(62)</sup>.



## Tai

**Fel y nodwyd yn flaenorol, mae rhaglenni sy'n canolbwytio ar wella tai yn gost-effeithiol.** Gall rhaglenni atal cwympiadau ddychwelyd canlyniadau ariannol yn ôl o fewn cyfnod o dair blynedd, sy'n llawer byrrach na llawer o ymyriadau<sup>(78)</sup>.

**Mae tystiolaeth yn dangos bod pob £1 ar wres canolog yn rhoi 42c mewn buddion iechyd a 3.9% yn llai o ymweliadau â meddygon teulu ar gyfer cyflyrau anadolol.**

**Mae bob £1 ar raglenni inswleiddio** yn dychwelyd £1.87 a £1 ar wella cynhesrwydd mewn cartrefi sy'n agored i niwed yn rhoi £4 o elw a 39% yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyflyrau cardio-anadolol ac anafiadau i'r rhai sydd â thai wedi'u huwchraddio<sup>(78)</sup>.



## Gweithgarwch Corfforol

**Mae strategaethau ataliol i atal cwympiadau yn gost-effeithiol a gallai osgoi torri asgwrn y glun arbed costau derbyn i'r ysbyty ar gyfartaledd o £5,744 y claf**<sup>(81)</sup>. Roedd

hyrwyddo gweithgarwch corfforol ar gyfer pobl â dementia cynnar (y rhaglen Hybu Gweithgarwch, Annibyniaeth, a Sefydlogrwydd mewn Dementia Cynnar (PrAISED)) yn dangos cymarebau SROI cadarnhaol yn amrywio o £3.46 i £5.94 am bob £1 a fuddsoddwyd, ochr yn ochr â chymarebau gwerth cymdeithasol nodedig<sup>(91)</sup>.

**Nodwyd tystiolaeth SROI bellach o brosiectau wedi'u lleoli yng**

**Ngogledd Cymru.** Gwnaeth rhaglen gweithgarwch corfforol 16 wythnos ar gyfer oedolion

hŷn â chyflyrau iechyd cronig ddychwelyd SROI o £5.07 am bob £1 a fuddsoddwyd dros gyfnod o flwyddyn<sup>(92)</sup>. Yn yr un modd, dangosodd rhaglen ffordd o fyw arloesol (My Life) a ddatblygwyd gan Glwstrwr Gofal Sylfaenol Gorllewin Conwy ar gyfer cyn-diabetes SROI o £4.23-£5.07 am bob £1 a fuddsoddwyd. Cafodd hwn ei sefydlu i fynd i'r afael â'r nifer uchel o bobl â Diabetes Math 2 yn yr ardal. Roedd yn cynnwys rhaglen 8 wythnos a gynlluniwyd i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a ffordd iach o fyw<sup>(93)</sup>.

**Ceir bod rhaglenni fel Ymarfer Corff Grŵp FaME, Ymarfer Corff Grŵp Tai Chi, ac Asesu ac Addasu Cartrefi** yn gost-effeithiol o'u cymharu â gofal arferol, gyda ROI ariannol yn amrywio o £0.85 (Tai Chi) i £3.17 (asesu ac addasu cartrefi) a SROI yn amrywio o £1.97 (Tai Chi) i £7.34 (asesu ac addasu cartrefi)<sup>(87)</sup>.



## Gweithle

Mae cydnabyddiaeth gynyddol y gall rhaglenni hybu iechyd yn y gweithle, megis gweithgareddau sgrinio i nodi risgau iechyd posibl, a gweithgareddau rheoli ffordd o fyw, i wella iechyd ac ymddygiad iechyd, gadw gweithwyr hŷn yn iach ac yn gynhyrchiol. Mae tystiolaeth dda yn dangos y gall arferion gweithio hyblyg, megis oriau hyblyg, gweithio rhan-amser, rhannu swydd a gweithio gartref, helpu pobl hŷn, yn arbennig y rhai sydd â phroblemau iechyd neu gyfrifoldebau gofalu, i aros mewn cyflogaeth am gyfnod hwy a gall arwain at fywydau iachach yn gyffredinol<sup>(58)</sup>.

## Y celfyddydau a diwylliant

Daw llawer o'r canlyniadau a nodwyd gennym o lenyddiaeth SROI. Gall buddsoddi mewn rhaglenni celfyddydol a chreadigol ar gyfer iechyd a llesiant oedolion hŷn greu SROI cadarnhaol megis caffis crefft a rhaglenni 'dynion mewn siediau' sy'n cynhyrchu SROI sylweddol o £8 i £10 am bob £1 a fuddsoddir<sup>(82)</sup>.



Cynhyrchodd rhaglen gelfyddydol yn Lloegr £1.20 am bob £1 a fuddsoddwyd, a chynhyrchodd Craft Café Creative Solutions yr Alban £8.27 y £1 a wariwyd. Yng Nghymru a Lloegr, cynhyrchodd gweithgareddau celf ar gyfer pobl hŷn â dementia SROI rhwng £3.20 a £6.62 y £1 a fuddsoddwyd<sup>(94)</sup>.

## Crynodeb

Mae angen dull cyfannol i sicrhau heneiddio'n iach gyda chydnabyddiaeth o werth pobl hŷn a'u cyfraniad i gymdeithas. Mae elw cymdeithasol ar fuddsoddiad yn darparu tystiolaeth o werth cymdeithasol ehangach heneiddio'n iach.



# Casgliad

Mae buddsoddi ym mlociau adeiladu iechyd da yn hollbwysig os ydym am weld gwelliannau mewn iechyd a llesiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yng Nghymru. Mae blaenoriaethu atal yn lleihau cost ariannol salwch i'r system iechyd a gofal ac i'r gymdeithas ehangach.

Mae iechyd da yn hawl ddynol sylfaenol i bawb ond yn anffodus mae gwahaniaethau annheg mewn iechyd rhwng cymunedau y gellir eu hosgoi. Gyda'n gilydd mae angen i ni wneud newid hanfodol sy'n cael effaith i leihau anghydraddoldebau mewn iechyd plant, anghydraddoldebau mewn marwolaethau y gellir eu hosgoi ac anghydraddoldebau o ran disgwyliad oes iach. Mae ymyriadau iechyd y cyhoedd yn cynnig elw sylweddol o £14 am bob £1 a fuddsoddwyd yn ychwanegu'r gwerth mwyaf ar gyfer pobl Cymru.



Mae'r adroddiad hwn yn darparu dystiolaeth ar y rhaglenni hirdymor ac ymyriadau wedi'u targedu lle mae gwariant ar atal yn cael yr effaith fwyaf ar draws cwrs bywyd, gan ddechrau yn y blynnyddoedd cynnar, i oedolion iach a heneiddio'n iach. Gall y meysydd sydd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer gwariant wella canlyniadau iechyd a chreu system iechyd a gofal sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol, gan gefnogi'r rhai sy'n llunio polisiau a phenderfyniadau i wneud y gorau o bob punt sy'n cael ei gwario ar atal yng Nghymru.



